# Canlyniadau Holiadur Cymuned Llangwm a Dinmael 2023






# Defnydd Cyfleusterau










Meinciau a chysgodfan bws
Dim ateb
Byth
Unwaith y flwyddyn
Achlysurol
Misol
Wythnosol
0
5
10
15
20
25


Capeli'r ardal
Dim ateb
Byth
Unwaith y flwyddyn
Achlysurol
Misol
Wythnosol
0
5
10
15
20
25
30

# Barn y Gymuned - Cyfleusterau










Meinciau a chysgodion bws
25
20
15
10
5
0
Rhagorol
Da
Derbyniol
Gwael
Dim ateb


Capeli'r ardal
25
20
15
10
5
0
Rhagorol
Da
Derbyniol
Gwael
Dim ateb


Cyfleusterau
50
40
30
20
10
0
Ydyn/0es
Na
Dim Ateb
Ydy cyfleusterau'n addas
Ydy nhw ar gael I chi pan fo angen
Oes digon o weithgareddau ymlaen?


Ydy cyfleusterau'n addas
38%
58%
2%
Ydyn
Na
Dim Ateb


Ydy nhw ar gael I chi pan fo angen
88%
10%
2%
Ydyn
Na
Dim Ateb


Oes digon o weithgareddau ymlaen?
29%
67%
4%
Oes
Na
Dim Ateb


Beth fyddech chi yn hoffi ei gael / weld yn yr ardal?
Gwella'r Gorlan
28%
Gwella parciau / caeau chwarae /...
28%
Shop
15%
Codi Tai Addas
15%
Gweithgareddau i'r plant a'r ifanc
8%
Mwy o weithgareddau cymunedol
8%
Meinciau
5%
Gwaith
3%
Clwb Dysgu Cymraeg
3%

# Barn y Gymuned - Syniadau ac Awgrymiadau









# Rhai Sylwadau Penodol

*“Gwaith a Thai”*

*“Drws ar y cwt hers. Arwydd i ddangos lle mae’r cae chwarae a’r Neuadd. Plac ar yr Hen Ysgol a’r Neuadd Fach a’r Efail. Paentio a thacluso’r gorlan diwylliannol.”*

*“Angen gwella’r parc – llawer o blant ifanc yn yr ardal”*
*“Angen cegin newydd yn y neuadd a system gwres newydd. Angen ail doi. Angen torri’s cae chwarae yn rheolaidd a thacluso o amgylch yr hen Ysgol a’r neuadd.”*

*“Hwb Wi-Fi, gwella’r system wresogi’r Gorlan Ddiwylliant a gwella cyfleusterau’r gegin / ardal tu allan i’r plant gael lleoliad addas i ymgynull.”*

*“Gwella cyfleusterau’r neuadd bentref – cegin, gwresogi, byrddau addas, adnoddau chwaraeon i’r neuadd. Oes bosib cynnal dosbarthiadau nos yn y neuadd? Clybiau chwaraeon?”*

*“Rydym yn ymarfer yn wythnosol yn y gorlan ddiwylliant a thrwy’r gaeaf ond mae hi’n oer yma – tydi’r gwres ddim digon da. Mae llawe r o weithgaredd lleol yn digwydd a cei ei drefnu ond dim o gwbl gan y Sir – ydy Conwy hyd yn oed yn ymwybodol o fodolaeth Llangwm. Yn anffodus cael ei anghofio.”*

*“O ran y parc chwarae nid oes defnydd gan nad yw’n ddiogel – mae hyn angen ei wella ar frys yn enwedig bod llawer o alw.”*

*“Mae angen cael y Gorlan Ddiwylliant i fod yn hyblyg i bob defnyddiwr. Blaenoriaeth i’r gegin, toiledau, lleihau costau ynni.”*

*“Biomass i gynhesu’r neuadd a chael incwm. Paneli solar efallai.”*

*“Adnewyddu’r gegin. Mwy o gyfleusterau i blant. Mwy o weithgareddau amrywiol. Gweithgareddau gwell yn y Gorlan. Cynnyrch lleol ar werth unwaith y mis – ‘pop up shop’?”*